**GORCHYMYN SIR BENFRO (STRYD DEWI/ STRYD ALBERT / LÔN SHIPMANS / FFORDD MILFORD, HWLFFORDD (GWAHARDD TRAFFIG CERBYDOL DROS DRO) 2022**

Rhoddir **HYSBYSIAD** drwy hyn bod Cyngor Sir Penfro yn bwriadu, cyn pen saith niwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991.

Mae'r Gorchymyn arfaethedig hwn yn angenrheidiol er mwyn gosod wyneb newydd ar y gerbytffordd.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro yr holl draffig cerbydol ac eithrio cerbydau esempt rhag mynd ar hyd y rhannau hynny o'r ffordd yn Stryd DewiStryd Albert/Lôn Shipmans/Ffordd Milford, Hwlffordd lle maent i gyd yn cyfarfod.

Bydd y llwybr amgen ar gyfer traffig yn cael ei bennu a'i arwyddo yn unol â hynny wrth i'r gwaith fynd rhagddo.

Bydd mynediad i gerddwyr yn cael ei gynnal drwy gydol y cyfnod y bydd y ffordd ynghau.

Y bwriad yw y bydd y cyfyngiadau, y bydd arwyddion priodol ar eu cyfer, yn dod i rym ddydd Sul 6 Mawrth 2022 am ddau Sul yn olynol.

Bydd y Gorchymyn yn parhau'n ddilys am gyfnod o ddim mwy na 12 mis rhag ofn y bydd angen aildrefnu'r gwaith neu y bydd unrhyw amgylchiadau annisgwyl.

Dyddiedig 9fed diwrnod o Chwefror 2022

**Darren Thomas**
**Pennaeth Seilwaith**
**Cyngor Sir Penfro**
**Neuadd y Sir**
**Hwlfforddd**